Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Brynhyfryd
Ffordd yr Wyddgrug
Rhuthun
LL15 1EG

10/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mai 2026

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 14 ac 15 Mai 2026. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith i wella presenoldeb.
- Siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol
- Ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- Craffu ar sampl o waith disgyblion
- Craffu ar sampl fach o ddogfennaeth ysgol berthnasol
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu gwaith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor effeithiol yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol wrth adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella?

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Yn ystod ein hymweliad, braf oedd clywed am y ffordd mae arweinwyr wedi parhau i fireinio prosesau hunanwerthuso, sy'n rhan bwysig o waith yr ysgol. Roedd yn gadarnhaol clywed am y ffordd mae arweinwyr adrannau a chyfadrannau yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhrosesau hunanwerthuso yr ysgol drwy arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chanfod barn disgyblion. Clywsom sut mae cynnal y gweithgareddau ar y cyd yn cynorthwyo arweinwyr i adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y dysgu a'r addysgu.

Trafodwyd y ffyrdd mae'r uwch arweinwyr yn ystyried data ynghyd â dadansoddi a chrynhoi'r  wybodaeth sy'n deillio o weithgareddau arfarnu. Maent yna'n cyd-drafod canfyddiadau mewn cyfarfodydd cyswllt gydag arweinwyr canol. Trwy ein trafodaethau, daeth yn amlwg bod cysylltiadau rhwng hunanwerthuso, atebolrwydd a chynllunio gwelliant.

Roedd hi'n braf clywed am y cyfleoedd i arweinwyr drafod gwaith eu cyfadrannau, a'r ffyrdd y maent yn rhannu arferion da gyda'u cymheiriaid. Yn ystod ein trafodaethau, clywsom sut mae staff yn cael mynediad i ddysgu proffesiynol sy'n berthnasol i'w gwaith drwy gyfuniad o gydweithio ag uwch arweinwyr a phartneriaid allanol.

Credwn y byddai'n fuddiol petai'r ysgol yn ystyried:

- I ba raddau mae arfarniadau yn gwerthuso effaith addysgu ar gynnydd disgyblion yn ddigon manwl a chywir?
- A oes digon o bwyslais ar wella agweddau penodol o addysgu heblaw adborth ysgrifenedig?

## Sut mae'r ysgol wedi mynd ati i wella prosesau presenoldeb, yn cynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim?

Diddorol oedd clywed bod yr ysgol yn parhau i gynyddu'r pwyslais ar wella a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Clywsom gan arweinwyr sut maent wedi mynd ati i ad-drefnu cyfrifoldebau er mwyn cryfhau'r gwaith a'r prosesau ymhellach.

Roedd hi'n braf clywed sut mae arweinwyr blwyddyn yn cyfrannu at waith ysgol gyfan ar wella presenoldeb drwy adnabod unrhyw batrymau o ran absenoldeb a thargedu'r gefnogaeth fwyaf effeithiol i unigolion. Maent yn gwerthuso effaith eu gwaith ar bresenoldeb grwpiau o ddisgyblion yn rheolaidd. Trwy ein trafodaethau, deallom fod yr arweinwyr hyn yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn eu rolau trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol.

Yn ystod ein trafodaethau, roedd yn ddiddorol clywed am yr ymyraethau amrywiol sydd ar waith drwy'r 'Ganolfan Fugeiliol', yr 'Hwb Dysgu' a'r 'Hafan'. Nododd arweinwyr fod y

datblygiadau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb rhai carfanau o ddisgyblion eleni. Nodwyd, yn ogystal, bod cynnydd yn ffigyrau presenoldeb yr ysgol gyfan eleni. O'r trafodaethau a gafwyd, rydym yn cytuno ag arweinwyr bod gwaith pellach i'w wneud i wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n parhau'n is na'r lefelau cenedlaethol.

Credwn y byddai'n fuddiol petai'r ysgol yn ystyried:

- Pa mor addas a chyraeddadwy yw'r targedau presenoldeb a sut bydd yr ysgol yn adnabod tueddiadau grwpiau blwyddyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol?
- Sut bydd arweinwyr yn arfarnu effaith y strategaethau amrywiol er mwyn adnabod yn glir pa agweddau'n benodol sydd fwyaf effeithiol a pham?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i'r ysgol. Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6634031

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro